# O'r golwg yng ngolwg pawb

## Ymchwiliad Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol i aflonyddu ar sail anabledd

## Crynodeb Cymru

## Medi 2011

Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol | Equality and Human Rights Commission

## Cynwwys


Rhagair....3
Pam cynnal ymchwiliad?....4
Y broblem ehangach....6
Ble mae'r aflonyddu yn digwydd?....9
Sut mae'r awdurdodau cyhoeddus wedi ymateb?....12
Beth sydd angen ei newid?....13
Beth arall fedrwn ni ei wneud yng Nghymru?....13
Argymhellion....14
Argymhellion ar gyfer gweithredu yng Nghymru....18
Y camau nesaf....22
Am yr ymchwiliad....22
Pwy ydyn ni a beth rydyn ni'n ei wneud....24
Cysylltwch â ni....24


## Diolchiadau

Mae'r ymchwiliad hwn wedi elwa o gyfraniadau hael gan lawer o unigolion a sefydliadau. Mae'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yn ddiolchgar i bob un o'r unigolion, sefydliadau ar gyfer pobl anabl, cyrff i arolygu ac awdurdodau cyhoeddus a phreifat sydd wedi cynnig tystiolaeth i'r Ymchwiliad. Diolchiadau arbennig i ffrindiau, teuluoedd a'r rhai hynny sydd wedi goresgyn aflonyddu ar sail anabledd, am eu parodrwydd i rannu eu profiadau gyda ni.

## Rhagair

Mae ein hymchwiliad Prydain gyfan wedi dangos bod aflonyddu ar sail anabledd yn brofiad dyddiol i lawer o bobl anabl. Mae'r crynodeb hwn o'r adroddiad llawn yn amlygu nodweddion sy'n arbennig o berthnasol i Gymru.

Dywedodd pobl wrthym eu bod yn dioddef gwahanol fathau o aflonyddu yn gyson, megis galw enwau, trais corfforol, bwlio a seiberfwlio, aflonyddu rhywiol, trais yn y cartref a chamfanteisio ariannol.

Dywed rhai pobl anabl eu bod yn derbyn hyn ac yn byw gyda'r sefyllfa. Mae eraill yn ceisio ad-drefnu eu bywydau er mwyn osgoi sefyllfaoedd dilornus. Yn aml, mae digwyddiadau bach yn tyfu ac, yn drasig, yn gallu gorffen mewn artaith neu farwolaeth. Roedd pob un y buom yn siarad â hwy yn teimlo bod yr aflonyddu yn niweidio eu bywydau.

Dengys ein tystiolaeth bod pobl anabl yn teimlo eu bod ymhell o gael eu trin gydag urddas a pharch yng Nghymru. Mae sicrhau hawliau dynol i bawb yng Nghymru yn flaenoriaeth.

Llynedd, cyhoeddodd y Comisiwn *'Pa mor deg yw Cymru?'* – ein hasesiad o'r anghyfartaleddau mwyaf yng Nghymru. Cododd saith her o'r dystiolaeth. Un o'r rhain yw lleihau'r achosion o droseddau atgasedd wedi eu hanelu at bobl anabl a grŵpiau eraill ac mae gwaith wedi dechrau eisoes i fynd i'r afael â hyn.

Ceir cyfleoedd unigryw i wneud cynnydd yn y maes hwn yng Nghymru. Mae Llywodraeth Cymru wedi clustnodi mynd i'r afael â throseddau atgasedd yn erbyn pobl anabl fel blaenoriaeth ac mae gennym ddyletswyddau cydraddoldeb newydd fydd yn caniatáu i awdurdodau cyhoeddus ddarparu ar y mater hwn.

Aethom ati i ymchwilio i aflonyddu ar sail anabledd ac ymateb awdurdodau cyhoeddus iddo. Mae'r ymchwiliad wedi dynodi saith argymhelliad yn y DU.

Ar sail tystiolaeth a gasglwyd yng Nghymru a'r ffaith bod llawer o'r liferi ar gyfer newid wedi eu datganoli, rydym wedi dynodi pedair ardal ar gyfer ymyrraeth:

- meithrin arweinyddiaeth a phartneriaethau
- defnyddio'r dyletswyddau cydraddoldeb newydd
- cyflwyno dulliau diogelu ar sail hawliau
- cynyddu'r achosion o adrodd.

Ni all y newidiadau hyn ddigwydd heb bartneriaethau effeithiol.

Rydym yn gobeithio y byddwch yn barod i dderbyn yr her hon. Gallwn, ar y cyd, wneud gwahaniaeth go iawn i fywydau pobl anabl a'u teuluoedd.

**Ann Beynon, Comisiynydd Cymru**

**Kate Bennett, Cyfarwyddydd Cenedlaeddol y Comisiwn, Cymru**

# Pam cynnal ymchwiliad?

## Fiona Pilkington

> **"Gallwn ni wneud unrhyw beth a fynnwn ni a gallwch chi wneud dim am y peth."**
>
> **(Geiriau aelod o'r criw o bobl ifanc oedd yn aflonyddu ar Fiona Pilkington a'i phlant)[1]**

Ar 23 Hydref 2007, daethpwyd o hyd i olion llosg Fiona Pilkington a'i merch Francecca Hardwick yn nghar glas y teulu. Daeth y cwest i achos eu marwolaethau i'r casgliad bod Fiona wedi lladd ei hun a'i merch

> "**oherwydd pwysau a gofid ynglŷn â dyfodol ei merch, ac ymddygiad gwrth-gymdeithasol parhaus.**"

Bu Fiona Pilkington a'i dau blentyn anabl - Francecca, oedd yn wynebu anawsterau dysgu ac Anthony, oedd â dyslecsia difrifol – yn dioddef aflonyddu am saith mlynedd. Taflwyd wyau a cherrig at eu cartref, taflwyd poteli i'w gardd. Roedd rhywun yn neidio ar eu clawdd drosodd a thro; roedd yr arwydd 'Ar Werth' y tu allan i'w cartref wedi ei ddifrodi; llosgwyd eu clwydi a'u ffensys. Chwalwyd eu ffenestri droeon. Cawsant eu gwawdio, eu dilorni a'u bychanu ar lafar.

Taflwyd cerrig at ffenestr ystafell wely Francecca wrth iddi baratoi i noswylio, gyda galwadau arni i godi ei dillad nos. Buwyd yn dynwared a dilorni ei ffordd o gerdded. Cafodd Anthony ei fwlio yn yr ysgol a derbyniodd fygythiadau yn erbyn ei fywyd. Cafodd ei ddyrnu yn ei wyneb; torrodd darn o ddant. Cafodd ei wthio i mewn i gar; niweidiwyd ei law. Cafodd ei gloi mewn sied a hynny ar fin cyllell a bu'n rhaid iddo dorri ffenestr er mwyn dianc. Taflwyd cerrig ato tra roedd allan yn beicio ac ymosodwyd arno gyda bar haearn.

Bu Fiona, ei mam a'r cymdogion mewn cysylltiad â Heddlu Swydd Gaerlŷr ar 32 achlysur gwahanol. Yn y cwest i farwolaethau Fiona a Francecca, penderfynodd y rheithgor bod gan Heddlu Swydd Gaerlŷr a Chyngor Hinckley & Bosworth rywfaint o gyfrifoldeb am eu marwolaethau. Beirniadwyd adran gwasanaethau cymdeithasol Cyngor Sir Swydd Gaerlŷr hefyd am fethu cynnig help proffesiynol i Fiona wedi iddi ddweud wrth weithiwr cymdeithasol ei bod am roi terfyn ar ei bywyd. Er hyn penderfynodd y cwest nad oedd gweithredu'r Cyngor Sir wedi cyfrannu at farwolaeth Fiona.

---

[1] dyfyniad gan fam Fiona Pilkington, Pam Cassell, yn ystod y cwest i'w marwolaeth

## ac yng Nghymru ..Christopher Foulkes

Ar 8 Mawrth 2007, daeth ei ofalwr o hyd i gorff Christopher Foulkes yn ei fflat yn Rhyl. Roedd yn gorwedd ar y llawr ar flanced, â gwaed o'i gwmpas.

Roedd  Christopher yn 39, yn anabl yn gorfforol, yn defnyddio ffrâm Zimmer neu gadair olwyn i symud ac roedd ganddo salwch meddwl. Byddai gofalwyr yn ymweld â'i fflat deirgwaith y dydd.

Bu farw Christopher yn dilyn ymosodiad gan fachgen 15 oed a gyhuddwyd cyn hynny o ddwyn oddi ar y dyn anabl. Roedd y llanc wedi bod yn ymweld â Christopher ers rhai misoedd.

Roedd Christopher wedi dechrau amau bod y llanc yn dwyn oddi arno a dywedodd wrth ffrind nad oedd eisiau i'r ymweliadau barhau.

Yn ystod y nos ar 7 Mawrth 2007, torrodd y llanc i mewn i fflat Christopher, ei daro ar ei ben a'i gorff ac yna dwyn ffôn poced, arian ac eitemau eraill. Cyhuddwyd y llanc o lofruddiaeth ond cafodd y cyhuddiad ei newid gan nad oedd y dystiolaeth feddygol yn ddigonol o ran achosi marwolaeth Christopher. Llediodd yn euog o anafu gyda bwriad.

Fe'i dyfarnwyd i orchymyn cadw a hyfforddi am 18 mis.

Roedd yr achosion hyn ac eraill a gafodd sylw yn y cyfryngau yn peri gofid mawr i ni. O edrych arnynt ochr yn ochr â'n hymchwil a'r wybodaeth a gasglwyd o'n llinell gymorth, daeth darlun i'r amlwg o broblem ddifrifol parthed aflonyddu ar sail anabledd. Roeddem yn teimlo'n sicr bod angen deall y sefyllfa hon yn well er mwyn cael datrysiadau effeithiol a gweithredu arnynt. Ac am y rheswm hynny dechreuwyd ar yr ymchwiliad.

## Y broblem ehangach

**“Rydym yn dioddef mor aml fel nad ydym yn meddwl mai cam-driniaeth yw e, ond dyna yw e mewn difrif.”**

**Menyw gydag anhawster symudedd yn son mewn grŵp trafod, 31-59 oed**

**“Roedd fy chwaer yn dweud fy mod yn anabl yn feddyliol a byddai’n fy nharo yn aml.”**

**Menyw ag anawsterau dysgu, 31-59 oed**

Roedd yr achosion erchyll o gamdriniaeth a ddisgrifiwyd yn dangos canlyniadau trist methu mynd i’r afael ag aflonyddu ar sail anabledd. Fodd bynnag, canlyniad pwysicaf yr ymchwiliad yw bod aflonyddu yn brofiad cyffredin i lawer o bobl anabl ac nid yn rhywbeth sy’n digwydd i nifer cyfyngedig yn unig. Cyfran fechan iawn o achosion sy’n cyrraedd y llysoedd barn ac yn cael sylw gan y cyfryngau.

Mae aflonyddu ar sail anabledd yn broblem gymdeithasol ddofn iawn. I lawer o bobl anabl mae’n rhan o fywyd bob dydd. Mae rhai pobl anabl yn ei weld fel rhywbeth anorfod ac yn canolbwyntio ar fyw gyda’r broblem neu yn ad-drefnu eu bywydau yn ôl eu gallu, er mwyn ei osgoi.

### Beth yw aflonyddu ar sail anabledd?

**“Fedrai i ddim dechrau disgrifio’r uffern ar y ddaear i chi.”**

**Menyw gydag anawsterau symudedd, 31-59 oed**

Gall aflonyddu ddigwydd mewn sawl ffordd. Mae’n amrywio o alw enwau ar y stryd i fwlio yn yr ysgol neu ar y we; o achosion pitw i ymosod treisgar; dwyn a thwyll; ymosod yn rhywiol; trais yn y cartref a difrod i eiddo. Gall dieithriaid ei achosi ond gall ddigwydd yr un mor hawdd ymysg y teulu, ffrindiau neu mewn perthynas.

At hyn, gall aflonyddu ddigwydd yng ngolwg pobl eraill a’r awdurdodau heb gael ei gydnabod am yr hyn ydyw. Mae diwylliant o anghrediniaeth yn bodoli parthed y mater hwn. Mae’n anodd i lawer wynebu’r ffaith bod pobl anabl yn dioddef y fath falais, creulondeb a chamfanteisio.

Mae’r diwylliant o anghrediniaeth yn gweithredu ar sawl lefel. Nid yw awdurdodau yn cymryd cwynion pobl anabl o ddifrif ac nid ydynt yn ymateb yn ddigon sydyn. Nid yw tystion yn y gymuned ehangach yn mynd i’r afael â nac yn herio ymddygiad megis galw enwau, pryfocio a bwlio, gan ei ystyried yn rhan normal neu anorfod o fywyd. Os yw person anabl wedi’i ynysu yn gymdeithasol, gall fod yn anodd i bobl eraill adnabod pan fo cyfaill neu berthynas yn camddefnyddio neu’n niweidio unigolyn.

Yn aml bydd pobl anabl, efallai wrth ymateb i gael eu hanwybyddu neu oherwydd anghrediniaeth, yn rhoi llai o sylw nag y dylent i effeithiau'r aflonyddu. Efallai na fyddant yn siarad amdano am na wyddant i bwy y dylent adrodd yr hanes; weithiau fe all eu bod yn meddwl bod prepian yn debygol o waethygu'r aflonyddu. O ganlyniad, nid yw'r ymddygiad hyn yn cael ei archwilio, ei gofnodi, nac yn cael sylw. Mae'n mynd dan y radar heb adael olion. Nid oes yn rhaid i'r drwgweithredwyr wynebu canlyniadau eu gweithredoedd ac mae'r dioddefwyr yn dal i fyw mewn ofn.

Dyma pam rydym yn disgrifio aflonyddu ar sail anabledd fel mater o'r golwg yng ngolwg pawb.

## Pa effaith mae'n ei gael?

**"Byddai'n well petawn wedi marw."**

**Menyw gydag anhawster symudedd, 31-59 oed**

**"Chi'n cyrraedd pwynt pan na fedrwch gysgu yn y nos...chi ar waith i gyd."**

**Menyw gydag anhawster symudedd, 31-59 oed**

Dywedodd rhai pobl ag anabledd wrthym eu bod yn ceisio anwybyddu'r aflonyddu neu ddianc rhagddo. Roedd rhai yn rhyfeddu at ddigwyddiadau di-achos, wedi eu targedu, tra bod eraill yn mynd yn flin. Dywedodd llawer o bobl eu bod yn teimlo'n agored i niwed a bod hyn yn tanseilio eu hawydd i beidio ildio i gyflwr eu hiechyd neu eu hanabledd.

Yn gyffredinol, roedd cael eu haflonyddu yn gwneud i bobl deimlo'n anniogel ac yn ofnus. Roeddent yn teimlo'n benisel a llawn embaras. Yn aml roedd hyn yn wir hyd yn oed os nad oedd tystion ar gael. Roedd yn waeth mewn mannau cyhoeddus, gan wneud i bobl deimlo eu bod yn sefyll allan o ganol y dorf, teimlo'n wahanol ac yn ynysig.

Roedd pobl anabl oedd wedi cael eu twyllo, eu camddefnyddio neu yn ysglyfaeth i rywun, yn teimlo'n glwyfedig ac wedi eu bradychu. Teimlai pobl oedd wedi cael eu cam-drin dros y we bod yn rhaid iddynt roi'r gorau i ddefnyddio safweoedd oedd gynt wedi chwarae rhan bwysig yn eu bywydau.

Roedd rhai pobl yn dewis peidio dweud gair wrth unrhyw un am eu profiadau yn dilyn digwyddiad. Ond roedd y rhai hynny oedd yn siarad am eu profiadau am ddeilio gyda'r effaith emosiynol yn bennaf. Yn aml doedden nhw ddim yn adrodd am y digwyddiad wrth yr awdurdodau. Weithiau am na wyddent i bwy y dylent droi neu am eu bod yn ofni byddai'r aflonyddu yn gwaethygu.

## Beth yw maint y broblem?

Mae ein hymchwil yn awgrymu bod aflonyddu ar sail anabledd yn gyffredin. Ond nid oes ystadegau cywir ar gael ar hyn o bryd ac mae bylchau mawr yn y data a gasglwyd gan ysgolion, awdurdodau lleol, gwasanaethau iechyd a thai a'r system cyfiawnder troseddol.

Dangosodd Arolwg Troseddu Prydain 2009/10 bod 19% o oedolion anabl wedi dioddef troseddau yn eu herbyn yng Nghymru a Lloegr llynedd. Mae hyn gyfystyr â thua 100,000 o bobl yng Nghymru. Wrth gwrs, nid yw pob trosedd a ddioddefir gan bobl anabl ynghlwm â'u hanableddau. Yn yr un modd, mae llawer o aflonyddu sydd ynghlwm ag anabledd heb gynnwys ymddygiad troseddol. Felly gall y niferoedd sydd yn profi aflonyddu ar sail anabledd fod lawer yn uwch.

Gwyddom hefyd bod pobl anabl yn fwy tebyg o ofni troseddau yn eu herbyn.

Heb ffigyrau cywir ni fedr awdurdodau cyhoeddus ddeall aflonyddu ar sail anabledd na'i atal nac ymateb iddo yn effeithiol.

## Ble mae'r aflonyddu yn digwydd?

Mae'r aflonyddu yn digwydd mewn sawl lle, gan gynnwys yn agos at y cartref, yn y cartref, ar drafnidiaeth gyhoeddus, mewn mannau cyhoeddus ac yn yr ysgol neu'r coleg.

### Hwnt ac yma

**"Mae bod yn anabl yn ddigon drwg heb gael rhywun yn rwbio fy nhrwyn yno bob gafael."**

**Menyw ag anawsterau dysgu 31-59 oed**

**"Efallai bod pobl yn meddwl nad oes dim ynddo fe, tipyn o dynnu coes, ond mae'n llethol."**

**Dyn gyda gallu corfforol cyfyngedig, 31 - 59 oed**

Cawsom dystiolaeth gan bobl am eu profiadau tra eu bod allan, yn siopa, yn cymdeithasu, yn mynd i'r gwaith neu'n dod adref, yn yr ysgol a'r coleg.

Soniodd rhai pobl wrthym sut roedd galw enwau wedi datblygu i fod yn drais corfforol. Dywedodd un wraig sut y bu i bobl ifanc yng nghanol dinas Caerdydd alw enwau arni, poeri arni yna ceisio cicio ei ffon gerdded o'r neilltu. Dywedodd dyn o Benybont-ar-Ogwr mor anodd oedd hi wrth geisio cymdeithasu mewn tafarn neu glwb – roedd geiriau cas yn aml yn troi'n ddadleuon a thrais corfforol. Roedd criw o bobl yn eu harddegau, yng Ngwent, wedi troi at berson oedd yn defnyddio sgwter symudedd a thaflu cerrig a thuniau ato.

Ond nid yn y dinasoedd neu'r trefi mawrion yng Nghymru yn unig mae'r trais yn digwydd.

Soniodd un dyn gydag anawsterau dysgu, dyn oedd yn byw mewn pentref bach iawn yng ghanolbarth Cymru, sut y cafodd ei "**gorneli a'i daro gan griw o ddynion meddw.**" Adroddodd dyn arall, mewn ardal wledig o ogleddd-orllewin Cymru, sut y ceisiodd criw o ddynion lleol redeg car drosto.

Disgrifiodd gwraig o Gasnewydd sut y byddai cwsmeriaid – ac un yn benodol – yn tynnu wynebau hyll ac yn ei sarhau wrth iddi weithio mewn archfarchnad leol. Dywedodd: **"roedd yn edrych arnaf ac yn tynnu wynebau hyll... rown yn gweithio yno ac roedd yn gwneud hwyl (am fy mhen)."**

Roedd aflonyddu yn digwydd hefyd mewn siopau, sinemâu, lleoedd bwyta, clybiau a lleoliadau hamdden eraill.

### Ger y cartref

Soniodd un dyn sut roedd ei deulu yn byw mewn ofn parhaus oherwydd eu cymdogion mewn un ardal o dde Cymru.

**"Mae fy ngwraig yn mynd a Dictaphone gyda hi pan fydd hi neu pan fyddwn ni yn gadael y tŷ rhag ofn ein bod yn cael rhagor o gamdriniaeth, fel y gallwn ddweud wrth yr heddlu am yr hyn rydym yn ei dioddef sy'n ei gwneud yn destun pryder pan fyddwn yn mentro allan."**

Meddai menyw anabl o ogledd-ddwyrain Cymru: **"Mae'r cymydog yn bloeddio pethau dros y ffens ac yn rhegi arnaf fi. Mae ef a'i ffrindiau yn chwerthin arnaf fi; mae hyn wedi bod yn digwydd ers tua dwy flynedd a hanner. "**

Dywedodd un teulu o ddwyrain Cymru hyn: **"Mae rhywun wedi arllwys petrol o gwmpas ein cerbyd, wedi bygwth gosod bom tân yn ein cartref; maen nhw yn sgraffinio'r cerbyd… pedwar ymosodiad gyda briciau, olew, a creosote dros y cerbyd a thri bag o baent dros ein heiddo."**

## Yn y cartref

Disgrifiodd gwraig o ganolbarth Cymru yr hyn roedd wedi dioddef dan law ei brodyr a'i chwiorydd. Ond penderfynodd mai digon oedd digon. Eglurodd **"Os bydd hi'n dechrau chwarae'n wirion eto, byddaf yn dweud wrth rywun achos dydw i ddim am adael iddi fy nharo gydol fy oes; fydda i ddim yn dioddef hynny."**

Meddai gwraig arall o orllewin Cymru: **"Dywedodd fy chwaer mewn llais uchel, er mwyn i bawb glywed, fy mod yn anabl. Dywedodd hynny am y gwyddai na fedrai fy mwrw i mewn man cyhoeddus… byddai'n fy nharo trwy'r amser a byddai yn fy mygwth i. Rwy'n credu mai blacmel oedd hyn, gan ddweud os byddi di'n gwneud hyn, byddaf fi'n…"**

## Ysgol neu goleg

Dywedodd dyn o ganolbarth Cymru sut yr oedd yn darged oherwydd ei anawsterau dysgu. Meddai **"Wrth i mi fynd i ac o'r coleg, byddai disgyblion o'r ysgol uwchradd yn poeri arnaf ac yn galw enwau arnaf. Bu hyn yn digwydd am sawl wythnos."**

Dywedodd un fam ei bod wedi symud i leoliadau gwahanol yng ngorllewin a gogleddd Cymru er mwyn addysg ei mab.

> **"Oherwydd yr aflonyddu doedd dim modd iddo fwrw ymlaen gyda'i ail flwyddyn."**

Roedd ysgol neu goleg yn gefndir i lawer o'r aflonyddu, gan gynnwys adroddiadau gan oedolion oedd yn dal i deimlo poen emosiynol y profiadau a gawsant flynyddoedd cynt.

## Trafnidiaeth gyhoeddus

> **"Yna taflwyd llwyth o wawd ataf a'm galw yn ff… cripil. Dywedwyd y dylwn fod yn falch mod i ar y bws o gwbwl ac na ddylwn i gwyno. Roedd ei iaith yn ffiaidd. Ond yr hyn a'm trawodd i oedd bod y bws yn llawn. "**
>
> **Dyn gyda phroblemau symudedd, 31 - 59 oed**

**"Rwyf wedi cael ambell broblem pan yn defnyddio'r trên a'r giard yn gwneud sylwadau…mae pobl yn meddwl eich bod yn gorliwio… ond pan fyddan nhw gyda chi ac yn clywed yr hyn sy'n digwydd, maen nhw'n gwybod nad gor-ddweud ydw i."**

**Dyn gyda gallu corfforol cyfyngedig, 31 - 59 oed**

Dywedodd pobl anabl wrthym bod trafnidaeth yn 'fan poeth' lle mae cam-driniaeth geiriol a chorfforol gan deithwyr eraill yn gyffredin. Weithiau roedd y staff yn eu cam-drin.  Ar adegau eraill nid oedd y staff yn ymyrryd i atal yr aflonyddu. Dywedodd rhai pobl anabl wrthym bod defnyddio ffon gerdded, cadair olwyn neu gi tywys mewn gorsafoedd lle nad oes staff yn gwneud iddynt deimlo'n fregus iawn a'u bod yn tynnu sylw eraill.

Yng Nghymru, lle nad oes staff mewn 174 allan o 221 gorsaf reilffordd, mae hyn yn fater difrifol.

Dywedodd rhai pobl anabl wrthym eu bod wedi cael eu cam-drin gan yrwyr bws. Soniodd dyn o ogleddd Cymru bod gyrwyr yn gwrthod aros iddo wedi iddyn nhw weld ei gadair olwyn.

Ychwanegodd **"Doedd y gyrrwr ddim yn barod i fi fynd ar ei fws er bod bathodyn ar ochr y cerbyd yn dweud ei fod yn addas ar gyfer pobl ag anabledd."** Meddai wedyn: **"Rwyf wedi bod yn y safle bws ar fy mhen fy hun. Mae'r gyrrwr wedi dod tuag ataf, gweld fy mod mewn cadair olwyn ac wedi gyrru i ffwrdd."**

Roedd llawer o bobl anabl ddim wedi mynd i'r drafferth o gwyno i'r cwmni bysiau gan nad oedd ganddynt hyder yn y modd y byddai'r gwyn yn cael ei thrin. Yn eu barn hwy, byddai'r cwmni yn defnyddio esgus i'w "**sgubo dan y carped**."

## Pam mae hyn yn digwydd?

Does dim tystiolaeth diffiniol ynghylch yr hyn sydd yn cymell y rhai sy'n aflonyddu ar eraill ar sail anabledd. Dywedodd pobl eu bod yn meddwl bod diffyg gwybodaeth am anabledd yn rhemp ac yn creu cyfle perffaith i'r rhai hynny sydd am aflonyddu. Yn eu barn hwy mae'r diffyg gwybodaeth yn arwain at ddiffyg empathi neu hyd yn oed ofn.

Dywedodd rhai bod pobl eraill weithiau'n anghysurus neu hyd yn oed yn teimlo embaras. Credai rhai bod aflonyddu yn adwaith emosiynol, difeddwl at gael eich gweld yn 'wahanol' neu yn 'fregus'. Dywedodd rhai eu bod o'r farn bod pobl yn eu gweld fel cocyn hitio, yn enwedig gan bobl ifanc heb ddigon o bethau i'w gwneud.

Awgrymodd llawer o bobl bod eu cyflwr bregus yn eu gwneud yn darged i droseddwyr ac unigolion ysglyfaethus. Teimlai eraill eu bod yn darged oherwydd cenfigen. Weithiau roedd cymdogion yn eiddigeddus o gerbydau arbennig neu addasiadau i'r cartref neu fudd-daliadau.

## Sut mae'r awdurdodau cyhoeddus wedi ymateb?

> **"Er i mi ddilyn pob gweithdrefn angenrheidiol wrth wneud fy nghwyn cefais fy anwybyddu. Cafodd cwynion i'r lefel uchaf – prif weithredwyr a gweinidogion – eu hanwybyddu."**
>
> **Dyn gydag anawsterau dysgu a chyflwr iechyd hir-dymor, 45-54 oed.**

Ymddygiad di-angen, dilornus a chamddefnyddiol gan unigolion neu grwpiau yw aflonyddu ar sail anabledd. Un o amcanion yr ymchwiliad hwn yw darganfod pa mor effeithiol yw awdurdodau cyhoeddus wrth atal neu ddileu'r ymddygiad.

Yn gyffredinol, mae awdurdodau cyhoeddus a gweithredwyr trafnidiaeth gyhoeddus yng Nghymru yn methu amddiffyn pobl anabl a'u teuluoedd rhag cael eu haflonyddu. Methwyd adnabod maint yr aflonyddu ar bobl anabl a'r effaith mae'n ei gael arnynt, i weithredu er mwyn atal hyn yn y lle cyntaf ac ymyrryd yn effeithiol pan yw yn digwydd.

Rydym wedi canfod:

- Bod digwyddiadau yn cael sylw unigol yn hytrach na'u gweld yn rhan o batrwm
- Bod awdurdodau yn methu rhoi ystyriaeth ddigonol i anabledd fel ffactor mewn achosion o fwlio, ymddygiad gwrth-gymdeithasol a throsedd
- Gael ei adael heb sylw, gall ymddygiad gwrth-gymdeithasol ar raddfa fach droi yn ymddygiad mwy difrifol.
- Collir cyfleodd i roi terfyn ar achosion o aflonyddu
- Bryd i'w gilydd rhoddir ffocws ar ymddygiad a sefyllfa fregus y dioddefwr yn hytrach na delio gyda'r troseddwyr
- Nid yw asianthaethau yn dueddol o weithio yn effeithiol ar y cyd i roi terfyn ar aflonyddu oherwydd anabledd
- Ychydig a fuddsoddwyd mewn deall achosion o aflonyddu a cheisio ei atal rhag digwydd yn y lle cyntaf
- Mae rhwystrau rhag adrodd am a chofnodi achosion o aflonyddu ar draws pob sector
- Mae rhwystrau rhag cael cyfiawnder, unioni'r cam a chefnogi fel mai ychydig yn unig o droseddwyr sydd yn wynebu canlyniadau eu gweithredoedd a chefnogaeth annigonol yn unig a roddir i lawer o ddioddefwyr
- Mae prinder rhannu'r hyn a ddysgir o'r achosion mwyaf difrifol ac mae'r un camgymeriadau yn cael eu hail-adrodd dro ar ôl tro.

Gallai Cymru wneud gymaint yn well. Mae hon yn her sydd angen i ni i gyd fynd i'r afael â hi heb oedi. Bydd atal pobl anabl rhag cael eu haflonyddu yn galw am newidiadau o fewn ein sefydliadau. Bydd hefyd yn galw arnom i chwarae ein rhan wrth drawsnewid y ffordd y gwelir pobl anabl, ffordd y rhoddir gwerth arnynt a'r ffordd y cânt eu cynnwys yn y gymdeithas.

## Beth sydd angen ei newid?

Mae ein hymchwiliad Prydain gyfan wedi dangos saith maes lle gall gwelliannau ddangos bod cymdeithas yn llwyddo i fynd i'r afael ag aflonyddu.

- Mae perchnogaeth go iawn o'r mater oddi mewn i sefydliadau yn hanfodol wrth ddelio gydag achosion o aflonyddu. Rhaid i arweinwyr ddangos ymrwymiad personol cryf a phenderfyniad i daclo newid
- Mae data diffiniol ar gael sydd yn arwydd clir o raddfa, difrifoldeb a natur yr achosion o aflonyddu ac yn galluogi monitro gwell o berfformiad y rhai hynny sydd yn gyfrifol am ddelio ag ef
- Mae'r System Cyfiawnder Troseddol yn fwy hygyrch a mwy parod i ymateb i ddioddefwyr a phobl anabl ac mae'n cynnig cefnogaeth effeithiol iddynt
- Mae gennym ddealltwriaeth gwell o gymhelliad ac amgylchiadau'r troseddwyr ac rydym yn gallu cynllunio dulliau mwy effeithiol o'u hatal
- Mae gan y gymuned ehangach agwedd fwy cadarnhaol tuag at bobl anabl ac maent yn deall natur y broblem yn well
- Mae'r holl aelodau hynny o staff rheng flaen fydd angen adnabod ac ymateb i achosion o aflonyddu ar sail anabledd wedi cael arweiniad effeithiol a hyfforddiant cywir
- Mae agweddau cadarnhaol tuag at atal ac ymateb i achosion o aflonyddu a systemau cefnogaeth i'r rhai hynny sydd eu hangen wedi eu gwerthuso a'u dosbarthu.

## Beth arall fedrwn ni ei wneud yng Nghymru?

At hyn, yng Nghymru mae gennym gyfleoedd unigryw i wneud cynnydd achos mae llawer o'r liferi ar gyfer newid wedi'u datganoli. Felly rydym yn argymell y canlynol:

- Mae rhaid i arweinwyr ddangos penderfyniad i gael gwared ag aflonyddu. Dylid annog partneriaethau sy'n atal ac ymateb i aflonyddu ac sy'n rhannu arfer effeithiol gan gynnwys awdurdodau cyhoeddus yn trefnu cynllun peilot Cynadleddau Asesu Risg Aml-asiantaeth
- Dylid defnyddio'r dyletswyddau cydraddoldeb newydd i roi blaenoriaeth i aflonyddu ar sail anabledd
- Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno agwedd at amddiffyn wedi ei seilio ar hawliau'r unigolyn
- Rydym am weld fwy o adrodd am ddigwyddiadau ac yn galw ar awdurdodau cyhoeddus i osod mesurau mewn lle i sicrhau profiad adrodd cadarnhaol a chefnogaeth effeithiol.

## Argymhellion

**1. Mae perchnogaeth go iawn o'r mater yn amlwg mewn sefydliadau sydd yn hanfodol wrth ddelio ag achosion o aflonyddu. Rhaid i'w harweinwyr ddangos ymrwymiad personol cryf a phenderfyniad i daclo newid.**

Mae ein tystiolaeth yn dangos mai'r prif ffactorau wrth wella perfformiad sefydliadau yw lefel o ymrwymiad a phenderfyniad yr arweinyddion i wynebu'r mater. Wedi'r cyfan y prif swyddogion a'r gweithredwyr sydd yn gosod blaenoriaethau sefydliadau. Os oes ymrwymiad gweladwy a go iawn ar y lefel uchaf yna mae'n debyg y bydd hyn yn gyrru'r newid trwy'r sefydliad maent yn ei arwain.

Yn ogystal â dangos arweiniad cadarn oddi mewn i'w sefydliadau, byddem yn disgwyl i arweinyddion gofleidio atebolrwydd cyhoeddus.

Un agwedd o hyn yw tryloywder dros berfformiad – sydd yn galw am ymrwymiad go iawn i rannu data sydd yn dangos sut mae eu sefydliad yn perfformio. Agwedd arall yw'r parodrwydd personol i fod yn atebol yn gyhoeddus i unrhyw faterion difrifol sydd yn digwydd yn eu meysydd.

Yn olaf, byddem yn disgwyl i'r ymrwymiad personol hwn gael ei gydnabod yn ffurfiol oddi mewn i amcanion craidd yr awdurdodau cyhoeddus, naill ai o fewn i'w strwythurau llywodraethu neu fel arall.

**2. Mae data diffiniol ar gael sydd yn dangos ystod, dwyster a natur aflonyddu ar sail anabledd ac yn galluogi gwell monitro o berfformiadau'r rhai hynny sydd yn gyfrifol am ddelio â'r achosion.**

Tra bod ein hymchwiliad wedi dangos llawer mwy i ni am aflonyddu ar sail anabledd mae llawer o hyd na wyddon ddim amdano. Heb ddata cynhwysfawr ar draws pob asiantaeth, bydd yn amhosibl i'n cymdeithas ymateb yn gywir. Er mwyn tryloywder, mae angen hefyd i awdurdodau cyhoeddus gyhoeddi eu perfformiad fel y gall y cyhoedd asesu sut maent yn perfformio.

Rydym yn argymell bod pob system ddata yn yr asiantaethau hyn:

- Yn medru cofnodi a yw'r dioddefwr yn berson anabl (a bod ganddo / ganddi nodwedd arall sydd angen amddiffyniad).
- Yn medru penderfynu
  - A oedd y drosedd wedi ei hysgogi gan anabledd y dioddefwr a/neu unrhyw nodwedd arall sydd angen amddiffyniad
  - Yr arweinydd amlwg fydd yn bwrw ymlaen gyda'r mater
  - Ai dyma'r tro cyntaf i'r math hwn o aflonyddu ddigwydd neu a yw'n rhan o batrwm mwy cyffredin, neu un sy'n gwaethygu
  - Statws blaenoriaeth pob digwyddiad mewn perthynas â'r risg i'r dioddefwr neu, os yw'n wybyddus, cymhellion ac amgylchiadau y troseddwr

- Ble mae'r troseddu yn parhau a ddylid neu i ba raddau y dylid gosod blaenoriaeth ar sefyllfa
- At ba asiantaethau eraill y dygwyd y mater i'w sylw neu, os nad yw hyn wedi digwydd, pam nad yw ac ym mha amgylchiadau y dylid cynnwys asiantaethau o'r math hyn. Hefyd pa drefniadau partneriaethau addas ddylid eu gosod mewn lle
- Adnabod pob digwyddiad sydd yn cael eu hail-adrodd neu sydd yn parhau er mwyn osgoi'r gofid a'r risg y gallai'r math hyn o ymddygiad ddatblygu i fod yn fwy difrifol
- Rhannu data ar draws asiantaethau ac adnabod cyfleoedd i rannu data yn effeithiol yn arbennig datrysiadau lle gall bywydau fod mewn perygl; yn benodol y rhai hynny sydd wedi eu dwyn i sylw y System Cyfiawnder Troseddol er mwyn sicrhau bod pawb sydd ynghlwm wedi gweld y darlun cyflawn

**3. Bod y System Cyfiawnder Troseddol yn fwy hygyrch a pharod i ymateb i ddioddefwyr a phobl anabl ac yn darparu cefnogaeth effeithiol iddynt**

Un o'r prif anghenion eraill yn nhermau ymateb i aflonyddu ar sail anabledd, a mathau eraill o ymddygiad troseddol a gwrth-gymdeithasol, yw bod dioddefwyr yn teimlo bod digon o gefnogaeth ar gael gan asiantaethau a bod yr asiantaethau, yn fwy cyffredinol, yn ymateb i'w pryderon yn effeithiol.

Pan fydd person anabl yn son am ddigwyddiad yn y lle cyntaf, dylai'r llwybr at adrodd am hyn ac, yn y pen draw, y system cyfiawnder troseddol, fod yn glir a heb rwystrau.

Rydym yn argymell y canlynol:

- Dylai'r holl asiantaethau sydd ynghlwm wrth ddelio gyda'r mater adolygu, a, ble bo angen hynny, gael gwared ar y rhwystrau sydd yn atal pobl rhag adrodd am yr aflonyddu ar sail anabledd. Bydd hyn yn galw yn benodol am gofnodi barn pobl anabl a'u cynrychiolwyr
- Dylai'r heddlu a'r gwasanaethau erlyn sefydlu, ar bob achlysur, a yw'r dioddefwr yn berson anabl ac os yw, dylai'r awdurdodau eu hun ystyried a yw'r anabledd yn ffactor yn y digwyddiad / y drosedd
- Ni ddylid dibynnu yn llwyr ar ddirnadaeth y dioddefwr. Dylid ail-ystyried hyn yn ystod gwahanol rannau o'r ymchwiliad. Anaml iawn y dylid ystyried bod troseddau yn erbyn pobl anabl heb gymhelliant.

**4. Mae gennym ddealltwriaeth cliriach o gymhelliant ac amgylchiadau’r troseddwyr a medrwn gynllunio ymyrraeth yn fwy effeithiol.**

Un mater sylfaenol wrth ddelio gyda phroblem aflonyddu ar sail anabledd, a mathau eraill o gamdriniaeth, yw deall pam mae yn digwydd.

Y mater mwyaf taer yw deall yn well beth yw cymhellion a nodweddion y rhai hynny sydd yn creu aflonyddu ar sail anabledd.

Yn ogystal â hyn, mae angen mwy o ymwybyddiaeth o’r strwythurau cyffredinol ac agweddau (a’r cysylltiadau rhyngddynt) a barodd i’r broblem godi yn y lle cyntaf.

Er mwyn mynd i’r afael â’r materion hyn rydym yn argymell:

- Ymchwil wedi ei dargedu mewn cydweithrediad â’r Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr ac awdurdodau lleol yn yr Alban er mwyn creu darlun mwy eglur o broffil y troseddwyr, eu cymhelliant a’u hamgylchiadau ac, yn benodol, i geisio ffyrdd o atal ac o adsefydlu
- Mae asiantaethau Cyfiawnder Troseddol yn cefnogi sefydliadau sydd yn comisiynu ymchwil i hyrwyddo a chefnogi astudiaethau sydd yn ystyried pam mae’r aflonyddu yn digwydd yn y lle cyntaf ac agweddau mwy cyffredinol tuag at bobl anabl.

**5. Mae gan y gymuned ehangach agwedd fwy cadarnhaol tuag at bobl anabl a maent yn deall natur y broblem yn well.**

Gydag ambell eithriad megis rhai o’r achosion sydd wedi cael cryn sylw gan y cyfryngau, nid yw’r cyhoedd yn gyffredinol yn ystyried bod y broblem o aflonyddu ar sail anabledd yn un ddifrifol nac yn eang – mae fel petai o’r golwg ond yn ngolwg pawb. Rhan bwysig o ddatrys y broblem yw newid agweddau’r cyhoedd at aflonyddu o’r math hwn, ac agweddau cymdeithasol mwy cyffredinol at bobl anabl.

Er mwyn hyrwyddo newid yn y maes hwn rydym yn argymell bod awdurdodau cyhoeddus:

- Yn adolygu effeithlonrwydd digwyddiadau codi ymwybyddiaeth cyfredol ynghylch aflonyddu ar sail anabledd ble maent yn bodoli ac asesu ble gellid llenwi’r bylchau yn eu hymgyrchoedd;
- Defnyddio’r dyletswyddau cydraddoldeb fel fframwaith i helpu hyrwyddo delweddau cadarnhaol o bobl anabl ac unioni’r gynrychiolaeth anghymesur o bobl anabl ar draws pob agwedd o fywyd cyhoeddus
- Annog pob unigolyn a sefydliad i adnabod, adrodd am ac ymateb i unrhyw faterion aflonyddu ar sail anabledd y maent yn dod ar eu traws.

**6. Bod yr holl aelodau hynny o staff rheng flaen fydd o bosib, yn gorfod adnabod ac ymateb i achosion o aflonyddu ar sail anabledd, wedi cael arweiniad effeithiol a hyfforddiant cywir.**

Dengys ein tystiolaeth yn glir y byddai adrodd am ac ymateb i aflonyddu wedi ei wella'n sylweddol pe cynigid gwell hyfforddiant i staff rheng flaen sydd yn darparu gwasanaethau cyhoeddus. Mae'r achosion yn dangos bod hyd yn oed staff megis swyddogion iechyd yr amgylchedd yn gallu taro ar draws enghreifftiau o aflonyddu a byddai'r gallu i wneud cyfeiriadau parthed amddiffyn y bobl fregus yn fodd o wneud gwahaniaeth arwyddocaol i fywydau pobl.

Er mwyn mynd i'r afael â'r materion hyn, rydym yn argymell bod:

- Pob aelod o staff rheng flaen sydd yn gweithio mewn asiantaethau, boed yn awdurdodau cyhoeddus neu'r sectorau gwirfoddol a phreifat, lle bo aflonyddu ar sail anabledd, ymddygiad gwrth-gymdeithasol neu ymddygiad arall tebyg yn fater o bryder, yn cael eu hyfforddi i adnabod yr arwyddion a chymryd y camau amddiffyn angenrheidiol
- Yn fwy cyffredinol dylai'r asiantaethau ystyried a oes angen addasu eu prosesau hyfforddi a datblygu staff, eu dulliau gwerthuso a dyrchafu, er mwyn sicrhau bod gwybodaeth o'r math hwn yn cael ei sodro ac yn anogaeth ar gyfer gwell perfformiad swydd
- Staff yn deall materion cydraddoldeb anabledd yn well ac yn ymdrin mewn modd addas gyda defnyddwyr gwasanaethau i'r anabl.

**7. Mae agweddau cadarnhaol at atal ac ymateb i achosion o aflonyddu wedi eu gwerthuso a'u dosbarthu.**

Mae llawer yn yr hyn mae sawl un o'r cyrff cyhoeddus yn ei wneud yn debyg o ymddangos fel arfer da a gall ddysgu sefydliadau eraill er mwyn helpu lleihau'r broblem. Fodd bynnag, mae llawer o'r cynlluniau hyn yn eu plentyndod ac ar hyn o bryd nid ydym yn gwybod beth sydd yn gweithio a beth na fydd yn gweithio.

Rydym felly yn argymell bod cyrff cyhoeddus yn cynnal gwerthusiad manwl o'u prosiectau ymateb ac atal dros gyfnod o dair blynedd fel y gallwn greu pecyn gwybodaeth o'r llwybrau mwyaf effeithiol i'w dilyn er mwyn delio gydag achosion o aflonyddu ac i leihau'r nifer o achosion. Wedi hynny dylid rhannu'r gwerthusiadau yn eang ac agored fel y gall pob sefydliad ddysgu gwersi oddi wrthynt.

## Argymhellion ar gyfer gweithredu yng Nghymru

**1. Mae rhaid i arweinyddion ddangos pendyrfyniad i gael gwared ag aflonyddu. Partneriaethau i atal ac i ymateb i aflonyddu yn rhannu ymarfer effeithiol, gan gynnwys awdurdodau cyhoeddus yn trefnu cynllun peilot Cynadleddau Asesu Risg Aml-asiantaeth.**

Thema allweddol yn y dystiolaeth a ddaeth o Gymru oedd y syniad mai'r ffordd fwyaf effeithiol o gael gwared ar aflonyddu ar sail anabledd yw trwy weithio gyda phartneriaethau, gan gynnwys awdurdodau cyhoeddus, y sector gwirfoddol, sefydliadau i bobl anabl ac unigolion.

Mae dangos arweiniad a phenderfyniad yn elfennau hanfodol wrth fynnu newidiadau ac adeiladu partneriaethau cryfion. Gweithio mewn partneriaethau yw un o egwyddorion rhaglen Llywodraeth Cymru ar gyfer gwella gwasanaethau cyhoeddus **"Gweithio ar y cyd fel Gwasanaeth Cyhoeddus Cymru, gyda mwy o gydlynu rhwng darparwyr er mwyn cyflenwi gwasanaethau cynaliadwy, ymatebol o ansawdd."** Dengys ein canfyddiadau bod yr agwedd hon yn hanfodol os am fynd i'r afael ag aflonyddu ar sail anabledd.

Nifer cymharol fechan o awdurdodau cyhoeddus a rhwydweithiau cryfion sydd gan Gymru. Mae hyn yn cynnig cyfleoedd i arbed bywydau a chynnyddu effaith strategaethau i fynd i'r afael ag aflonyddu ar sail anabledd.

Trwy rannu gwybodaeth ac ymarfer effeithlon, a thrwy weithio mewn partneriaeth gydag awdurdodau cyhoeddus gellir cynyddu'r posibilrwydd o drin achosion unigol gyda gwasanaeth di-dor. Dengys ein tystiolaeth bod hyn yn hanfodol er mwyn sicrhau'r canlyniadau gorau i bobl anabl.

Tynnodd rhai cyfranwyr ein sylw at lwyddiant y **Cynadleddau Asesu Risg Aml-Asiantaeth** (**MARAC)** a ddefnyddir ar hyn o bryd yng Nghymru mewn achosion o drais domestig. Cafodd ei awgrymu fel cynllun peilot posibl ar gyfer trin aflonyddu ar sail anabledd.

Mewn MARAC mae asiantaethau lleol yn cyfarfod i drafod dioddefwyr sydd yn wynebu risg uchel o gam-drin domestig, sy'n byw yn yr ardal leol. Yr amcan pennaf yw lleihau'r risg o niwed difrifol neu lofruddiaeth i ddioddefwr ac i wella iechyd, diogelwch a lles y rhai sydd yn wynebu risg.

Caiff gwybodaeth am y risg a wynebir gan y dioddefwyr ei goladu o nifer o asiantaethau gwahanol. Rhennir y dulliau gweithredu sydd eu hangen er mwyn sicrhau diogelwch a'u defnyddio i greu cynllun rheoli risg, gan gynnwys yr holl asiantaethau perthnasol. Trwy ymdrech gydlynol ar ran yr holl asiantaethau a sefydliadau, mae MARAC yn gweithio i sicrhau bod dioddefwyr sydd yn wynebu risg uchel, oedolion a phlant, yn cael clust i wrando arnynt, cefnogaeth ac amddiffyniad gwell rhag cam-drinaeth pellach.

**2. Caiff y dyletswyddau cydraddoldeb newydd eu defnyddio i flaenoriaethu ar fynd i'r afael ag aflonyddu ar sail anabledd.**

Casglodd ein hadroddiad *Pa mor deg yw Cymru?* dystiolaeth i benderfynu ble roedd yr anghyfartaleddau mwyaf yng Nghymru. Her fawr sy'n ein hwynebu, yn ôl y dystiolaeth, yw lleihau'r nifer o droseddau casineb, gan gynnwys casineb ar sail anabledd.

Er mwyn newid y sefyllfa yn y maes hwn rydym yn argymell bod awdurdodau cyhoeddus yn defnyddio dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus ac, yn benodol, y dyletswyddau penodol yng Nghymru. Bydd y dyletswyddau penodol yn helpu awdurdodau cyhoeddus i fynd i'r afael yn effeithiol ag aflonyddu ar sail anabledd.

Dylid ymgynghori gyda phobl anabl a'u cynnwys wrth osod amcanion, wrth hel data ac wrth ddatblygu cynllun gweithredu i atal aflonyddu. Bydd y dyletswyddau yn fodd hefyd o fonitro ac adolygu'r cynllun gweithredu er mwyn sicrhau'r canlyniadau gorau posibl.

Dangosodd ein tystiolaeth bod gan ysgolion swyddogaeth arwyddocaol wrth newid agweddau, gan gynnwys disgyblion anabl ac annog dealltwriaeth o amrywiaeth. Dylai ysgolion ddelio yn effeithiol gyda bwlio a gyda disgyblion yn aflonyddu ar bobl anabl mewn mannau cyhoeddus.

Mae'r dyletswyddau penodol yn cynnwys ysgolion a bydd hyn yn helpu datblygu'r amcanion i atal aflonyddu. Mae Llywodraeth Cymru newydd gyhoeddi arweiniad i ysgolion ar fwlio sydd yn cynnwys bwlio disgyblion anabl a seiberfwlio.

Gydag eithriadau posibl megis rhai o'r achosion sydd wedi cael cryn sylw gan y cyfryngau, nid yw'r cyhoedd yn gyffredinol yn ystyried bod y broblem o aflonyddu ar sail anabledd yn un ddifrifol nac yn eang. Rhan bwysig o ddatrysiad i'r broblem yw newid agweddau'r cyhoedd at aflonyddu o'r math hwn, ac agweddau cymdeithasol mwy cyffredinol at bobl anabl.

Roedd cyfranogwyr i drafodaethau grwpiau trafod yng Nghymru wedi nodi'r agweddau diwylliannol sydd wrth wraidd aflonyddu fel y brif flaenoriaeth. Soniwyd am yr angen i weithredu ar y cyd i geisio newid agweddau er mwyn gweld pobl anabl mewn goleuni cadarnhaol mewn cymdeithas ac er mwyn sicrhau Cymru sydd yn wirioneddol gynhwysol. Mae'r dyletswyddau penodol yn gyfle i gynnwys awdurdodau cyhoeddus mewn ymgyrchoedd codi ymwybyddiaeth.

**3. Cyflwyno agwedd at amddiffyn wedi ei seilio ar hawliau'r unigolyn gan Lywodraeth Cymru.**

Mae gan awdurdodau lleol gyfrifoldebau arbennig parthed arwain diogelwch plant ac oedolion, neu amddiffyn y rhai hynny sydd yn wynebu risg. Ystyr amddiffyn yw cadw yn ddiogel yr unigolion hynny all fod yn wynebu niwed, gan gynnwys ymyrraeth mewn sefyllfa arbennig ac atal cyn i sefyllfa ddatblygu.

Ers y flwyddyn 2000 mae'r agenda ddiogelu yng Nghymru wedi ei llywodraethu gan 'Mewn Dwylo Diogel'. Arweiniad yw hwn wedi ei gyhoeddi gan Lywodraeth Cymru.

Mae atal aflonyddu ar sail anabledd yn cynnwys hawliau dynol sylfaenol megis ymreolaeth ac urddas. Roedd adolygiad o 'Mewn Dwylo Diogel' yn 2010[2] wedi argymell agwedd wedi ei seilio mwy ar hawliau wrth ddiogelu pobl yng Nghymru. Byddai hyn yn newid y syniad o 'bobl sy'n fregus' gyda phersbectif gwahanol yn ystyried 'pobl mewn sefyllfaoedd agored i niwed'. Bydd hyn yn rhoi hawl pobl i reolaeth wrth galon y penderfyniadau parthed diogelu.

Ym mis Mawrth 2011, cyhoeddodd Y Dirprwy Weinidog Plant a Gwasanaethau Cymdeithasol yng Nghymru 'Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy i Gymru: Fframwaith Gweithredu', sydd yn nodi bwriad Llywodraeth Cymru i sefydlu Bwrdd Diogelu Cenedlaethol i oedolion a phlant.

Mae'r Prif Weinidog wedi cyhoeddi y bydd Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a disgwylir iddo gynnwys diogelu. Dyma gyfle pwysig i gynnwys system ddiogelu effeithiol a fydd hefyd yn diogelu hawliau pobl anabl.

---

[2] Athrofa Cymru, Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Pirfysgol Morgannwg, 2010, Adolygiad o 'Mewn Dwylo Diogel' : Adolygiad Cyfarwyddyd Llywodraeth Cymru ar Ddiogelu Oedolion yng Nghymru sy'n agored i niwed http://www.nmc-uk.org/Documents/Safeguarding/Wales/Review%20of%20In%20Safe%20Hands.pdf

**4. Cyflwynir mwy o adroddiadau am achosion ac mae awdurdodau cyhoeddus wedi gosod mesurau mewn lle i sicrhau profiad cadarnhaol o adrodd am yr achosion, a chefnogaeth effeithiol.**

Dangosodd ein hymchwiliad ddiffyg parodrwydd i adrodd am achosion o aflonyddu. Dywedodd rhai pobl wrthym nad oeddent yn son am eu profiadau am eu bod yn teimlo embaras neu gywilydd. Roedd eraill yn brin o hyder neu yn teimlo y byddai yn peri gormod o straen. Teimlai rhai pobl na fyddai yn werth yr ymdrech neu na fyddai eraill yn eu cymryd o ddifrif ac na fyddent yn cael canlyniad cadarnhaol.

Dywedodd rhai pobl nad oeddynt yn ystyried yr aflonyddu y maent yn ei ddioddef fel trosedd. Roeddynt yn ei ystyried fel rhywbeth y mae'n rhaid iddynt ei ddioddef mewn bywyd. Felly cam cyntaf pwysig mewn cynyddu'r nifer o achosion sy'n cael eu dwyn ger bron yw codi ymwybyddiaeth ymhlith pobl anabl o'u hawl i fyw yn ddiogel.

Mae llawer o awdurdodau cyhoeddus a sefydliadau yn y sector gwirfoddol yng Nghymru wedi cydnabod y budd dynol ac ariannol a ddaw wrth ymyrryd yn gynnar. Maent wedi dechrau canolbwyntio adnoddau ac adeiladu partneriaethau lleol a ledled Cymru gyda'r bwriad o godi ymwybyddiaeth ac annog pobl i adrodd am eu profiadau.

Mae cyfle yma yng Nghymru i ddysgu wrth ein gilydd, i ddysgu beth sydd yn gweithio'n dda o'r mentrau sydd eisoes wedi eu dechrau, er enghraifft gwaith Grŵp Cymru: Troseddau Casineb Anabledd a llwyddiant prosiect 'Son Amdano' sydd wedi sefydlu 31 canolfan i adrodd am ddigwyddiadau yn ardal Gwent.

Cam allweddol at gynyddu'r gyfradd o bobl sydd yn adrodd am eu profiadau yw sichrau bod pobl yn cael profiad cadarnhaol wrth geisio trafod digwyddiad.

Dywedodd pobl wrthym mai dyma oedd yn creu profiadau cadarnhaol wrth adrodd am ddigwyddiadau:

- Ei bod yn glir i bwy roeddent i fod adrodd
- Bod y broses yn hygyrch i'r un oedd yn gwneud y gwyn
- Eu bod yn cael derbyniad o gydymdeimlad a bod rhywun yn eu deall
- Bod yr awdurdodau yn ymateb yn gyflym, pan fo angen
- Bod y staff oedd yn delio â'r mater yn ymwybodol o anabledd ac yn sensitif i anghenion y person oedd yn trafod yr aflonyddu
- Bod cyfle ganddynt i ddisgrifio'r digwyddiad yn llawn
- Bod rhywbeth wedi digwydd o ganlyniad i'r adroddiad, oedd yn foddhaol iddynt i ryw raddau
- Eu bod yn cael gwybod am yr hyn oedd yn cael ei wneud
- Bod chwilio am ganlyniad a fyddai'n lleihau'r risg o ddialedd neu gynyddu'r broblem
- Ble cynigiwyd cefnogaeth cyfryngol

## Y camau nesaf

Er mwyn creu Cymru ble gall pobl anabl fyw yn ddiogel rydym wedi gosod nifer o argymhellion a dulliau gweithredu er mwyn newid pethau.

Bydd y rhan fwyaf o'r rhain yn galw ar i awdurdodau cyhoeddus gydweithio lawer yn agosach, i ddatblygu agwedd gydweithredol er mwyn sicrhau canlyniadau. Byddwn yn ystyried y cyfan gyda'r sefydliadau perthnasol. Bydd ein Cynadleddau yn yr Hydref yn dechrau'r broses hon.

Bydd y Cynadleddau yn ein helpu i ddechrau profi a yw'r argymhellion sydd gerbron y rhai cywir, sut i'w cyflwyno ac a oes mesurau eraill all fod yn effeithiol.

Yn ystod y chwe mis nesaf byddwn yn gweithio gyda sefydliadau partner i ddatblygu cynlluniau gweithredu ac i hyrwyddo agweddau effeithiol tuag at ddileu aflonyddu ar sail anabledd.

Byddwn yn monitro a gwerthuso canlyniadau ein gwaith gyda sefydliadau partner i weld pa wahaniaeth mae'r ymchwiliad hwn wedi ei wneud i ddiogelwch a sicrwydd pobl anabl yng Nghymru

## Am yr ymchwiliad

### Ein grymoedd fel Comisiwn

Crëwyd y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yn 2007. Mae gennym gylch gwaith statudol i hyrwyddo a monitro hawliau dynol ac i ddiogelu, gorfodi a hybu cydraddoldeb.

Dan adran 3 o Ddeddf Cydraddoldeb 2006, mae gofyn ar i'r Comisiwn annog a chefnogi datblygiad cymdeithas ble:

- Ni fydd gallu pobl i gyrraedd eu potensial yn cael ei gyfyngu gan ragfarn na gwahaniaethu
- Bod parch i a modd amddiffyn hawliau dynol pob unigolyn
- Bod parch i urddas a gwerth pob unigolyn
- Bod gan bob unigolyn gyfle cyfartal i gyfrannu i gymdeithas
- Bod parch cydfuddiannol rhwng grwpiau wedi seilio ar ddeall a rhoi gwerth ar amrywiaeth, ac ar barch at gydraddoldeb a hawliau dynol.

Dan adran 16 deddf Cydraddoldeb 2006, gall y Comisiwn ymchwilio i faterion neu sectorau lle mae pryderon parthed hawliau dynol a /neu gydraddoldeb. Trwy ein hawliau i ymchwilio, gall y Comisiwn ofyn i sefydliadau roi tystiolaeth, yn ysgrifenedig ac yn bersonol. Yna byddwn yn cyhoeddi adroddiadau awdurdodol, wedi eu seilio ar dystiolaeth a chynnig argymhellion ar gyfer gweithredu.

## Diffiniad o aflonyddu ar sail anabledd

At bwrpas yr ymchwiliad hwn, mae'r Comisiwn wedi diffinio  aflonyddu ar sail anabledd  fel ymddygiad nas dymunwyd, ymelwol neu ddilornus yn erbyn pobl anabl gyda'r bwriad neu gyda'r effaith o naill ai:

- Ymyrryd ag urddas, diogelwch, sicrwydd neu ymreolaeth y person sydd yn ei brofi, neu
- Greu amgylchedd bygythiol, gelyniaethus, diraddiol neu sarhaus.

## Cylch gorchwyl a chylch gwaith yr ymchwiliad hwn

Mae'r ymchwiliad yn ymdrin â Chymru, Yr Alban a Lloegr.

Mae gofyn i'r Comisiwn osod cylch gorchwyl ar gyfer ei ymchwiliadau ffurfiol sydd yn archwilio:

- Achosion aflonyddu ar sail anabledd
- Gweithredu gan awdurdodau cyhoeddus a gweithredwyr trafnidiaeth gyhoeddus i'w atal a'i ddileu
- Aflonyddu ar sail anabledd  gan unigolion neu grŵpiau o bobl, gan gynnwys dieithriaid, cymdogion, ffrindiau, teulu a phartneriaid;
- Aflonyddu mewn mannau cyhoeddus megis strydoedd, parciau, ysgolion ac adnoddau hamdden a/neu mewn mannau preifat megis y cartref.

Nid yw yn cynnwys aflonyddu yn y gweithle gan fod y mater hwnnw yn cael ei drin gan fframwaith deddfwriaethol ar wahân.

## Beth wnaethom ni yng Nghymru

Yng Nghymru buom yn hel tystiolaeth trwy ein gwefan gyfrinachol ar-lein, trwy'r post, e-bost ac yn bersonol. Roedd hyn yn cynnwys rhoi tystiolaeth dros y ffôn, drwy ffôn testun, teip, e-bost, llythyr ac yn bersonol (un-am-un) gan unigolion, awdurdodau cyhoeddus, sefydliadau ar gyfer pobl anabl, y 3ydd sector ac eraill. Cynhaliwyd digwyddiadau grwpiau trafod ar gyfer unigolion a 24 cynrychiolydd o awdurdodau cyhoeddus, sefydliadau ar gyfer pobl anabl a'r sector gwirfoddol.

Derbyniodd Paneli Gwrando yng Nghymru dystiolaeth gan 28 sefydliad gan gynnwys Llywodraeth Cymru a chynrychiolwyr awdurdodau iechyd, awdurdodau lleol, trafnidiaeth, addysg, tai, yr heddlu ac arolygiaeth.

## Pwy ydyn ni a beth rydyn ni'n ei wneud

Amcan Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yw lleihau anghyfartaledd, cael gwared ar wahaniaethu a chryfhau perthynas dda rhwng pobl, a hyrwyddo ac amddiffyn hawliau dynol.

## Cysylltwch â ni

Gellir cael argymhellion manylach yn yr adroddiad am yr ymchwiliad parthed y sectorau allweddol gan gynnwys:

- Addysg
- Cyfiawnder troseddol
- Llywodraeth leol a chanolog
- Iechyd
- Tai
- Gofal cymdeithasol
- Trafnidiaeth
- Partneriaethau
- Rheoleiddwyr ac arolygiaeth

Mae'r adroddiad llawn yn:

www.equalityhumanrights.com/dhficymru

Cewch wybod mwy amdanom neu gysylltu â ni trwy ein gwefan:

www.equalityhumanrights.com

Neu trwy gysylltu â'n llinell gymorth:

Ffôn: 0845 604 8810
Ffôn testun: 0845 604 8820
Ffacs: 0845 604 8830

ISBN: 978-1-84206-409-2
Medi 2011
© Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol